# *Gravity* (Cuaron, UDA / Y DU, 2013)
## Cynhyrchu: y ddadl ynghylch 3D

## Gweithgaredd Cychwynol (Adnodd Digidol 3a)

**Faint ohonoch chi sydd wedi gwylio *Gravity*:**
- **mewn 3D yn y sinema?**
- **mewn 2D yn y sinema?**
- **gartref ar deledu 3D?**
- **gartref ar deledu 2D?**

**Faint ohonoch chi sydd ddim wedi gwylio'r ffilm o gwbl? Faint ohonoch chi gafodd eich dylanwadu gan y teimlad y dylai'r ffilm gael ei gwylio mewn 3D yn unig, yn ddelfrydol ar sgrin sinema?**

**A oes unrhyw ffilmiau eraill ar wahân i *Gravity* rydych chi'n credu bod yn rhaid eu gwylio mewn 3D yn y sinema?**
- **Pam hyn?**
- **Beth oedd gan y ffilmiau hynny, sydd ar goll mewn ffilmiau 3D eraill?**

**Yn eich barn chi, beth yw atyniad ffilmiau 3D i (a) cynulleidfaoedd a (b) y diwydiant ffilm?**

## Tasg 1 (Adnodd Digidol 3b)

**Edrychwch ar y deunydd o Flwyddlyfr BFI ar gyfer 2014 (Yr 20 ffilm 3D mwyaf llwyddiannus yn swyddfa docynnau'r DU ar gyfer 2014, tudalen 25)**

**http://www.bfi.org.uk/sites/bfi.org.uk/files/downloads/bfi-statistical-yearbook-2014.pdf**

**Mewn grwpiau bach, trafodwch a gwnewch nodiadau er mwyn ateb y cwestiynau canlynol**

- **Yn ôl y tabl hwn, *Gravity* oedd y ffilm 3D fwyaf llwyddiannus. Dyma'r ffilm a oedd â'r gyfran uchaf o gyfanswm yr arian a wnaeth yn dod o sgriniau 3D sef 79%. Beth yw'r rheswm am hyn, yn eich barn chi?**

- **Gan edrych yn ôl ar y tabl, y ffilmiau 3D mwyaf llwyddiannus ar ôl *Gravity* oedd *Walking with Dinosaurs* (69%) a *One Direction: This is Us* (66%). Pam, yn eich barn chi, mae'r ffilmiau hyn mor llwyddiannus mewn 3D, ac a ydyn nhw'n cynnig templed ar gyfer y dyfodol?**

- **Gwelwyd y gyfran leiaf o arian o sgriniau 3D ar gyfer tair ffilm hynod o boblogaidd: *Monsters University* (22%), *Frozen* (23%) a *Despicable Me 2* (25%). Beth yw'r rheswm am hyn, yn eich barn chi?**

- **Pe byddech chi'n gwmni cynhyrchu ffilm sy'n ystyried llwyddiant ysgubol *Gravity* fel ffilm 3D, a fyddai'r llwyddiant yn eich annog i wneud ffilmiau tebyg mewn 3D? Pa broblemau posibl sy'n gysylltiedig â hyn?**

# *Gravity* (Cuaron, UDA / Y DU, 2013)
## Cynhyrchu: y ddadl ynghylch 3D

## Tasg 2 (Adnodd Digidol 3c)

http://www.wired.com/2013/10/gravity-future-3d-movies/

**Darllenwch yr erthygl o'r cylchgrawn ar-lein Americanaidd *Wired*. Mewn grwpiau, tynnwch sylw at y dyfyniadau sy'n gwneud y canlynol:**

1. **Esbonio i'r darllenydd pam mae *Gravity* yn gweithio mewn 3D.**
2. **Darparu ystadegau am lwyddiant cynnar *Gravity*.**
3. **Dangos sut mae *Gravity* yn wahanol i ffilmiau 3D eraill?**
4. **Tynnu sylw at faterion negyddol sy'n ymwneud â 3D.**
5. **Dangos pwysigrwydd 3D ar gyfer y farchnad dramor (y tu allan i Ogledd America).**

## Tasg ddilynol

**Defnyddiwch y wybodaeth o erthygl Jennifer Wood yn *Wired* i ateb y cwestiwn canlynol:**

- **'Mae effeithiau gweledol yn brif atyniad ar gyfer cynulleidfaoedd.' I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad hwn?**